CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

**Nos Fawrth, 21 Tachwedd 2017**
**7.00 yh**

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

# Town and Community Councils Liaison Forum Meeting

**Tuesday, 21 November 2017**
**7.00 pm**

Council Chamber
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

## Rhaglen

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

**2. Cadarnhau Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2017 – ynghlwm.

Mater yn codi:

**2.1 Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu**

Gwybodaeth gan yr Arolygydd Jason Higgins, Heddlu Gogledd Cymru.

**3. Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2018/19**

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith:

## Agenda

**1. Welcome and Apologies**

**2. Confirmation of Minutes**

To submit, for confirmation, the minutes of the meeting held on 13 June 2017 – attached.

Matter arising:

**2.1 Police Community Support Officers**

Information from Inspector Jason Higgins, North Wales Police.

**3. Initial Budget Proposals for 2018/19**

To consider the Executive's initial budget proposals:

Cymraeg: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/cwrdd-r-heriau-ein-cynigion-cychwynnol-ar-gyfer-cyllideb-2018/19/133075.article?redirect=false

English: http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/consultations/meeting-the-challenges-our-initial-budget-proposals-for-2018/19/133074.article

| | |
|---|---|
| **4. Grŵp Rhanddeiliaid** | **4. Stakeholder Group** |
| Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 – ynghlwm. | To submit the minutes of the meeting held on 9 November 2017 – attached. |
| Materion yn codi: | Matters arising: |
| **4.1 Gweithdy – Cynllunio Lle** | **4.1 – Workshop – Shaping Places** |
| Nodi'r bwriad i gynnal gweithdy 'Cynllunio Lle'. | To note the intention to hold a 'Shaping Places' workshop. |
| **5. Siarter Cymuned ar y Cyd** | **5. Shared Community Charter** |
| Diweddariad gan Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. | Update from Huw Jones, Head of Democratic Services. |
| **6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cynllun Llesiant Drafft** | **6. Wellbeing of Future Generations Act – Draft Wellbeing Plan** |
| Diweddariad gan Llio Johnson, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. | Update from Llio Johnson, Anglesey and Gwynedd Public Service Board Programme Manager. |
| **7. Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru – diweddariad** | **7. North Wales Connection Project – update** |
| Er gwybodaeth - gohebiaeth gan y Grid Cenedlaethol - ynghlwm. | For information - correspondence from the National Grid – attached. |
| **8. Ffioedd Claddu Plant** | **8. Child Burial Fees** |
| Diweddariad gan Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol. | Update from Annwen Morgan, Assistant Chief Executive. |
| **9. Rhannu gwybodaeth** | **9. Sharing information** |
| Dolenni amrywiol at wybodaeth ddefnyddiol – ynghlwm. | Various links to useful information – attached. |

## 10. Dyddiadau Cyfarfodydd

Nodi bod y dyddiad a raglennwyd ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2018 wedi newid o nos Iau, 22 Mawrth i **nos Iau, 15 Mawrth 2018.**

## 11. Unrhyw fater arall

## 10. Dates of Meetings

To note that the scheduled date for the March 2018 meeting has changed from Thursday, 22 March to **Thursday, 15 March 2018.**

## 11. Any other business

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 13 Mehefin 2017
yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7.00 yh

**Yn bresennol:**

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Gwen Evans-Jones | Biwmares |
| Cyng Stan Zalot | Biwmares |
| Cyng Ann Kennedy | Caergybi |
| Cliff Everett (Clerc) | Caergybi |
| Cyng Eurfryn Davies | Cwm Cadnant |
| Cyng Carys Davies | Llanbadrig |
| Cyng Derek Owen | Llanbadrig |
| Cyng Gwilym O Jones | Llanfair yn Neubwll |
| Cyng Dyfed Williams | Llanfair yn Neubwll |
| Cyng Delyth Owen | Llanfaelog |
| Hazel Hollingsworth (Clerc) | Llanfaelog |
| Cyng Einion Williams | Llanfihangel Ysgeifiog |
| Cyng Hanna Huws | Llanfairpwll |
| Cyng Gareth Cemlyn Jones | Llanfairpwll |
| Cyng Dylan Rees | Llangefni |
| Cyng Margaret A Thomas | Llangefni |
| Cyng J E Lewis | Llangristiolus |
| Sydna Roberts (Clerc) | Llannerch-y-medd |
| Cyng A W Jones | Mechell |
| Cyng Dafydd Idriswyn | Penmynydd a Star |
| Eifion H Jones (Clerc) | Pentraeth |
| Wendy Faulkner (Clerc) | Porthaethwy |
| Cyng Keith Roberts | Trearddur |
| Cyng Bill Rowlands | Trearddur |
| Cyng Edna Jones | Trewalchmai |
| Margaret Price (Clerc) | Trewalchmai |
| Cyng Gordon Browne | Y Fali |
| Cyng Mavis Swaine-Williams | Y Fali |

**Cyngor Sir Ynys Môn:**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Dr Gwynne Jones | Prif Weithredwr |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol – Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau |
| Huw Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Christian Branch | Rheolwr Busnes, Gwasanaeth Rheoleiddo a Datblygu Economaidd |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Alun Roberts | Cymunedau Ymlaen Môn |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

1. **Ymddiheuriadau**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Cyngor Cymuned Moelfre; Cyngor Cymuned Rhosybol; Cynghorydd Alan Benson - Cyngor Cymuned Trearddur; Cyngor Cymuned Tref Alaw.

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Meirion Jones, Robin Williams.

**Cymorth Cynllunio Cymru** – Elwyn Thomas.

2. **Ymgynghoriad Wylfa Newydd (PAC3)**

Cafwyd Datganiad o Ddiddordeb gan y Cynghorydd Delyth Owen (Llanfaelog), a hynny gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Horizon.

Eglurodd yr Arweinydd y byddai'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn arwain ar yr eitem hon, gan nad oedd Elwyn Thomas, Cymorth Cynllunio Cymru, yn gallu bod yn bresennol, oherwydd salwch. Dywedodd bod swyddogion y Cyngor yn ceisio ail-drefnu cyfarfod yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 19 Medi, ac y cylchredir manylion pellach unwaith y bydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau gyda Chymorth Cynllunio Cymru.

Cafwyd amlinelliad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol o'r broses ymgynghori, y sefyllfa o ran ymateb y Cyngor Sir, a'r amserlen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad.

Annogwyd yr holl gynghorau i ymateb i'r ymgynghoriad cyfredol. Pwysleisiwyd bod rhaid cofrestru i gael cyflwyno tystiolaeth fel rhan o'r broses archwilio DCO ac y dylai pawb sy'n dymuno gwneud hynny gwblhau'r ffurflen gofrestru unwaith y mae'r ffurflen ar gael.

Yn ystod y drafodaeth, daeth yn amlwg mai dim ond nifer fechan o'r cynghorau oedd wedi derbyn copiau papur o'r ddogfen ymgynghori, a bod y fersiwn electronig a gafwyd yn rhy fawr i'r clercod eu dosbarthu trwy e-bost. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod hyn yn anfoddhaol ac y byddai'n cysylltu gyda Horizon ynghylch y mater ar fyrder.

**Gweithredu: Y Prif Weithredwr Cynorthwyol i gysylltu ar fyrder gyda Horizon i fynegi pryder ynghylch argaeledd y ddogfennaeth ymgynghori.**


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 3. Cofnodion

Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2016 fel rhai cywir, yn amodol ar y cywiriadau isod i'r rhestr presenoldeb:

Cyng Dafydd Idriswyn – *Penmynydd* ~~Pentraeth~~ a Star
~~Cyng~~ Eifion H Jones (*Clerc*) - Pentraeth

Fe ategodd Cliff Everett ei sylw ar dudalen 5 o'r cofnodion (dylid gwneud defnydd o bwerau sydd gan gynghorau tref a chymuned i gynyddu praeseptau er mwyn diogelu asedau lleol).

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

### 3.1 Cyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol

Cafwyd cyflwyniad gan Christian Branch, Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, ar yr uchod. Diffinir Cyfraniadau Budd Cymunedol (CBC) a 'phrosiectau mawr' fel a ganlyn:

- CBC – cyfraniad "ewyllys da" a roddir **yn wirfoddol** gan ddatblygwyr prosiectau mawr er budd y cymunedau sy'n cynnal datblygiad.

- Prosiectau mawr – prosiectau ar raddfa sylweddol sydd â'r potensial i ddod â manteision ac effeithiau sylweddol i Ynys Môn a'i chymunedau am nifer o flynyddoedd.

Eglurwyd bod gan y Cyngor Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol mewn lle ac y byddai'r strategaeth yn cael ei chylchredeg er gwybodaeth ar ôl y cyfarfod hwn.

O ran prosiect Wylfa Newydd, nodwyd bod dogfen Egwyddorion Dulliau Cyffredin wedi ei baratoi gyda Horizon er mwyn diffinio a chytuno ar egwyddorion ac annog cyd-ddealltwriaeth. Rhestrir isod brif negeseuon y cyflwyniad:

- Cyfle unigryw / graddfa nas gwelwyd o'r blaen
- Etifeddiaeth barhaol / cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gwirfoddol, nid statudol
- Yn gysylltiedig â chyfnodau cynhyrchu a datblygu ynni (ar ôl Penderfyniad Buddsoddi Terfynol)
- Darpariaeth yn annibynnol i Gyngor Sir Ynys Môn
- Cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau bosib ar gyfer Ynys Môn a'i chymunedau.

Fel rhan o'r drafodaeth ddilynol, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal unrhyw gyfleusterau newydd a roddir i'r cymunedau.

**Gweithredu: y cyflwyniad a Strategaeth Budd Cymunedol y Cyngor i'w cylchredeg i'r cynghorau tref a chymuned.**

**3.2 Pencampwyr Iaith Gymraeg**

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at ei chyflwyniad i gyfarfod diwethaf y Fforwm, pryd y gofynnwyd i'r cynghorau tref a chymuned benodi pencampwyr Iaith Gymraeg. Nawr bod y cynghorau newydd yn eu lle yn dilyn yr etholiadau lleol, gofynnodd i'r cynghorau godi'r mater yn eu cyfarfod nesaf.

**Gweithredu: Cais i'w gylchredeg i'r holl gynghorau, gyda chopi pellach o'r cyflwyniad a roddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm.**

**3.3 Siarter Cymuned ar y Cyd**

Cafwyd diweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar adolygu'r Siarter. Eglurodd ei fod wedi trafod y Siarter gyda Swyddog Rhanbarthol Un Llais Cymru a'I fod ar ddeall bod cangen leol Un Llais Cymru wedi enwebu is-grwp i adolygu'r Siarter. Y bwriad oedd cylchredeg y Siarter eto er mwyn rhoi cyfle i bawb roi eu barn.

Ychwanegodd y Cyng Dafydd Idriswyn bod yr Is-grwp bellach wedi cyfarfod ac wedi gwneud nifer o sylwadau.

**Gweithredu: Y Siarter i'w gylchredeg i'r cynghorau tref a chymuned, er sylwadau erbyn diwedd Medi.**

**4. Gwell Cyfathrebu gyda Chynghorau Tref a Chymuned**

Cyflwynwyd yr eitem yma gan y Cynghorydd Bill Rowlands, Cyngor Cymuned Trearddur. Mynegodd bryder nad oedd y Cyngor Sir yn gwrando ar sylwadau'r Cyngor Cymuned. Rhoddodd rhai enghreifftiau, yn bennaf mewn perthynas â'r defnydd o'r maes parcio a materion cynllunio. Dywedodd bod angen gwell deialog rhwng y Cyngor Sir ag aelodau Cynghorau Cymuned yn uniongyrchol.

Dywedodd yr Arweinydd bod rôl aelodau etholedig y Cyngor Sir yn allweddol yma er mwyn pontio rhwng y sir a'r gymuned.

Nodwyd bod lle i atgyfnerthu prosesau cyfathrebu ymhellach.

**5. Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017 – 2022: Ymgynghoriad**

Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, Eglurodd mai'r thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r ddogfen ddrafft yw uchelgais y Cyngor *"i weithio'n gydweithredol gyda'i ddinasyddion, ei gymunedau a'i bartneriaid i sicrhau gwasanaeth o safon uchel sydd yn gwella nasawdd bywyd i bawb ar yr ynys."*

Canolbwyntiodd yn bennaf ar Amcan 3 - *Galluogi cymunedau i ymdopi'n effeithiol gyda newidiadau a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol* – gan bwysleisio'r rôl bwysig sydd gan y cymunedau yma i gynorthwyo'r Cyngor Sir i gyflawni'r amcan yma.

Nodwyd y cynhaliwyd sesiynau gyda hyd at 250 o staff, ac y bydd adborth staff yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf, pryd y bydd cyfle i'r cynghorau tref a chymuned gyflwyno sylwadau, gyda'r bwriad o gwblhau'r ddogfen derfynol ym mis Medi 2017.

**Gweithredu:**

- **Cynllun Corfforaethol drafft i'w gylchredeg i'r Cynghorau Tref a Chymuned, fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mehefin / Gorffennaf.**

- **Trafodaeth bellach i'w gynnal yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.**

## 6. Grwp Rhanddeiliaid

Nodwyd, fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Grwp Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017.

Nodwyd bod angen cadarnhau aelodaeth y Grwp, yn dilyn yr etholiadau lleol a gynhaliwyd ym mis Mai.

Yn codi o'r drafodaeth, gofynnodd y Cynghorydd Stan Zalot i'r Cyngor roi sylw i broblemau o ran rheoli parcio yn Sgwâr y Castell, Biwmares.

**Gweithredu:**

- **Cysylltu gyda'r cynghorau perthnasol er mwyn cadarnhau aelodaeth y Grwp**

- **Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo roi sylw i broblemau o ran rheoli parcio yn Sgwâr y Castell, Biwmares.**

## 7. Cymunedau Ymlaen Môn

Cafwyd amlinelliad gan Alun Roberts, Cymunedau Ymlaen Môn, ar beth all ei sefydliad gynnig i'r cynghorau tref a chymuned. Eglurwyd mai elusen a chwmni cyfyngedig dan warrant yw Cymunedau Ymlaen Môn a nod y sefydliad yw creu cyfleoedd i bobl Ynys Môn gyrraedd eu potensial drwy waith neu sefydlu busnes eu hunain. Nodwyd y gall Cymunedau Ymlaen Môn gynnig amryw o wasanaethau, gan gynnwys hyfforddi unigolion di-waith yn y gymuned drwy gyfrwng cytundebau torri gwair gyda'r cynghorau.

Fe gylchredwyd gwybodaeth ysgrifenedig yn y cyfarfod ac fe annogwyd y cynghorau i gysylltu â Chymunedau Ymlaen Môn am drafodaeth bellach.

**Gweithredu: Gwybodaeth ysgrifenedig i'w gylchredeg i'r holl gynghorau tref a chymuned.**

**8. Côd Ymddygiad – Hyfforddiant**

Nodwyd y bwriad i gynnal sesiwn hyfforddiant ar yr uchod ym mis Medi i aelodau cynghorau tref a chymuned – dyddiad i'w gadarnhau.

**9. Unrhyw fater arall**

**9.1 Cefnogaeth i glercod cynghorau cymuned**

Cyfeiriodd y Cynghorydd A W Jones (Mechell) ar y pwysau cynyddol sydd ar glercod cynghorau cymuned o ran cwrdd â gofynion statudol ayyb, yn arbennig y cynghorau lleiaf. Awgrymodd y dylid creu rhwydwaith benodol er mwyn i'r clercod ddod at ei gilydd i dderbyn cefnogaeth, rhannu arfer da ac osgoi dyblygu.

**Gweithredu: Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ddanfon y cais ymlaen i Bwyllgor Ynys Môn Un Llais Cymru,**

**9.2 Casglu Gwastraff – Cyfleusterau Cymunedol**

Gofynnwyd beth oedd y drefn ar gyfer casglu gwastraff o leoliadau cymunedol, ee ysgolion meithrin, neuaddau ayyb (Llanfairpwll)

**Gweithredu: Ymholiadau i'w gwneud gyda'r gwasanaeth perthnasol er mwyn rhoi gwybod i Gyngor Cymuned Llanfairpwll.**

**9.3 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO)**

Gofynnwyd beth oedd y drefn ar gyfer sicrhau presenoldeb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned.

**Gweithredu: Ymholiadau i'w gwneud gyda'r Heddlu er mwyn rhoi gwybod i holl aelodau'r fforwm.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yh

# Grŵp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 am 5.30 yh

Yn bresennol:

**Cynghorau Tref a Chymuned**

| | |
|---|---|
| Cyng Stan Zalot | Cyngor Tref Biwmares |
| Cyng J E Lewis | Cyngor Cymuned Bodffordd |
| Cyng Einion Williams | Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog |
| Wendy Faulkner | Cyngor Tref Porthaethwy |

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| | |
|---|---|
| Cyng Llinos Medi | Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd) |
| Annwen Morgan | Prif Weithredwr Cynorthwyol |
| Rhian Wyn Jones | Swyddog Polisi |

**Menter Môn**

Jackie Lewis

**Hefyd yn bresennol**:

Ieuan Wyn Jones, Peter Davies (Grŵp Adfywio Llangefni)
Alwyn Rowlands (Cynghrair Seiriol)

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyng Margaret Thomas | Cyngor Tref Llangefni |
| Bethan Fraser-Williams | Menter Môn |

## 1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 fel rhai cywir.

Yn codi:

## 1.1 Teclyn Partneriaethol

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol at y ffaith bod y polisi a'r teclyn partneriaethol ar gael ar wefan y Cyngor. Dywedodd bod angen i'r grŵp godi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau bod y dogfennau hyn ar gael i'w cynorthwyo, yn ogystal â'r ffaith bod cymorth ymarferol ar gael gan Menter Môn.

## 2. Enghreifftiau o Arfer Dda – Cyflwyniadau

### 2.1 Grŵp Adfywio Llangefni

Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Ieuan Wyn Jones a Peter Davies ar waith Grŵp Adfywio Llangefni. Nodwyd mai'r symbyliad i greu grŵp cymunedol yn y lle cyntaf oedd yr ansicrwydd o ran dyfodol cwrs golff Llangefni a'r her a roddwyd i'r grŵp oedd llunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol y clwb. Maes o law, fe wneir penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch ei ddyfodol. Fe ddatblygwyd y grŵp ymhellach trwy ddod â nifer o wahanol fudiadau lleol at ei gilydd i adnabod gweledigaeth ac yna rhannu'r gwaith trwy sefydlu is-grwpiau i fod yn gyfrifol am bedwar maes gweithredu, sef Hamdden Egnïol a Lles; Diwylliant a Thwristiaeth; Busnes ac Amgylchedd

Cafwyd amlinelliad o rai o'r prosiectau sydd ar waith ac ar y gweill o dan y meysydd gweithredu uchod ac fe nodwyd mai'r camau nesaf fyddai llunio rhestr blaenoriaeth sy'n uchelgeisiol ond realistig; adnabod ffynonellau cyllid a sicrhau cefnogaeth weinyddol i'r fenter a chymorth i lunio ceisiadau grant.

### 2.2 Cynghrair Seiriol

Cafwyd cyflwyniad gan Alwyn Rowlands ar waith Cynghrair Seiriol. Y symbyliad yn yr achos yma oedd bwriad y Cyngor Sir i gau Canolfan Biwmares. Ar ôl i'r grŵp cymryd cyfrifoldeb am y Ganolfan, fe ddatblygwyd ei rôl ymhellach trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus i ganfod beth oedd dymuniadau'r cymunedau o fewn ward Seiriol, pwy fyddai'n barod i gymryd rhan a pha sgiliau oedd ar gael i gyfrannu at gynnal y grŵp. Mae'r grŵp bellach wedi mabwysiadu'r enw 'Cynghrair Seiriol' ac mae'r Gynghrair yn gweithredu'n unol â chyfansoddiad ffurfiol.

Cafwyd amlinelliad o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn y Ganolfan a sut y bwriedir datblygu'r Ganolfan ymhellach, ynghyd â mentrau eraill sydd ar y gweill yn Seiriol.

Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd mewn perthynas â'r ddau gyflwyniad, daethpwyd i'r casgliadau isod:

- Bod angen cefnogaeth i ddatblygu arbenigedd llunio ceisiadau am grant
- Y dylid osgoi dibynnu'n ormodol ar grantiau ac ystyried dulliau eraill i gynhyrchu incwm (er enghraifft, trosglwyddo meysydd parcio cyfagos i'r gymuned)
- Bod angen plethu perthynas agosach rhwng y Cyngor Sir a'r grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau cefnogaeth yn ystod, ac ar ôl, trosglwyddo asedau
- Bod angen adnabod y sgiliau sydd ar gael o fewn cymunedau, sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau ymhellach, ac y dylid rhannu a chyfnewid arbenigedd rhwng cymunedau.

## 3. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

### 3.1 Amlder cyfarfodydd

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol ei bod o'r farn nad oedd y trefniadau presennol o ran cynnal cyfarfodydd y Fforwm yn ddigonol (hy '*o leiaf tri chyfarfod cyswllt bob blwyddyn'* (Siarter Cymuned ar y Cyd, 2013). Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn cytuno, gan nodi bod rhaglenni'r cyfarfodydd yn rhy faith ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i gael trafodaethau ystyrlon.

**Penderfynwyd argymell y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm pob dau fis, yn ogystal a chryfhau aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid.**

Er hwylustod i'r drafodaeth yng nghyfarfod y Fforwm, rhestrir isod aelodaeth bresennol y Grwp:

- Un cynrychiolydd o Gyngor Tref Amlwch
- Y Cynghorydd Stan Zalot - Cyngor Tref Biwmares
- Cliff Everett - Cyngor Tref Caergybi
- Y Cynghorydd Margaret Thomas - Cyngor Tref Llangefni
- Wendy Faulkner - Cyngor Tref Porthaethwy
- Y Cynghorydd J E Lewis – Cyngor Cymuned Bodffordd
- Y Cynghorydd Einion Williams – Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog
- Y Cynghorwyr Sioned Edwards ac Ieuan Williams - Cyngor Cymuned Llanfair ME

### 3.2 Gweithdy – Cynllunio Lle

Eglurodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod y Cyngor wedi cryfhau effaith y Grŵp Tir ac Asedau, sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob gwasanaeth mewnol. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd a'i bwrpas yw rhoi cyfeiriad strategol i'r Cyngor ar 'Gynllunio Lle'. Mae ei waith yn cynnwys gwneud defnydd o system GIS er mwyn adnabod lleoliadau'r holl wasanaethau cymunedol cyfredol ac adnabod unrhyw fylchau amlwg. Y bwriad yw cynllunio o gwmpas dalgylchoedd y trefi.

Nodwyd bod dogfen gychwynnol yn cael ei pharatoi, sy'n amlinellu'r weledigaeth a'r egwyddorion, a bod angen ymgorffori barn a syniadau'r cymunedau eu hunain yn y cyfeiriad strategol. I'r perwyl hwn, awgrymodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y dylid cynnal gweithdy Cynllunio Lle.

Cytunwyd:

**y dylid cynnal gweithdy Cynllunio lle yn ystod mis Ionawr 2018.**

**y dylid gwahodd Menter Môn a Medrwn Môn, ynghyd â sefydliadau perthnasol eraill o ran Cynllunio Lle, er enghraifft CADW a Chroeso Cymru.**

**y dylid rhoi sylw i'r angen i ddatblygu arbenigedd mewn llunio ceisiadau am grantiau yn y gweithdy.**

**3.3 Cyfarfod nesaf y Fforwm**

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y brif Fforwm ar nos Fawrth, 21 Tachwedd 2017 am 7.00 yh.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.05 yh.

**Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru – amseriad ein cais**

Mae ein gwaith i gysylltu Wylfa Newydd yn dal i symud ymlaen yn dda. Rydym wedi bod yn brysur yn paratoi'r holl astudiaethau ac adroddiadau y bydd ar yr Arolygiaeth Gynllunio eu hangen wrth ystyried a ydynt am roi caniatâd i ni ar gyfer ein cysylltiad arfaethedig.

Ein bwriad ni o'r dechrau oedd cyflwyno'n cais ni ar ôl i Horizon gyflwyno'u cais nhw. Mae Horizon wedi dweud yn awr na fyddant yn cyflwyno'u cais tan y flwyddyn nesaf ac felly rydym wedi penderfynu gohirio ein cais ninnau hefyd.

Rydym yn dal i gydweithio'n agos â Horizon i ddatblygu ein prosiect ac i gydlynu ein ceisiadau.

Cewch ddarllen mwy am y ffordd yr ydym yn sicrhau y bydd ein cysylltiad yn barod ar gyfer Horizon pan ddaw'r amser ym mlog y prosiect.

Os bydd gennych ryw gwestiwn, mae croeso i chi ebostio, neu ein ffonio ar 0800 990 3567.

Yn gywir,

Tîm Cysylltiadau Cymunedol

**North Wales Connection Project – timing of our application**

Our work to connect Wylfa Newydd is continuing to progress well. We've been busy preparing all of the studies and reports that the Planning Inspectorate will need when they consider whether to grant us consent for our proposed connection.

We always planned to submit our application after Horizon have submitted theirs. Horizon have now said that they won't be submitting their application until next year, so we've decided that our application will move back too.

We're continuing to work closely with Horizon to develop our project and to coordinate our applications.

You can read more about how we're making sure our connection will be ready for when Horizon wants it in our project blog.

If you have any queries, please don't hesitate to email, or call us on 0800 990 3567.

Yours sincerely,

Community Relations Team

**Tîm Cysylltiadau Cymunedol**
FREEPOST National Grid
NW Connection

Rhadffôn: 0800 990 3567
E: nationalgrid@cysylltiadgogleddcymru.com
www.cysylltiadgogleddcymru.com

nationalgrid

26 Hydref 2017

Annwyl

**Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru: amseriad ein cais**

Gan eich bod yn gyngor tref/cymuned sydd â buddiant yn y prosiect, rwy'n ysgrifennu â'r newyddion diweddaraf am ein cynlluniau i gysylltu Wylfa Newydd.

Fel y gwyddoch efallai, ein bwriad ni o'r dechrau oedd cyflwyno ein cais ni am ganiatâd i gysylltu'r atomfa newydd ar ôl i Pŵer Niwclear Horizon gyflwyno'u cais nhw.

Mae Horizon wedi dweud yn awr na fyddant yn cyflwyno'u cais i'r Arolygiaeth Gynllunio tan y flwyddyn nesaf ac felly rydym ni wedi penderfynu dal ein cais ninnau yn ôl hefyd.

Nid yw hynny'n golygu bod ein prosiect ar stop.  Rydym yn dal i gydweithio'n agos â Horizon i ddatblygu ein prosiect ac i gydlynu ein ceisiadau.  Rydym yn cynnal rhagor o astudiaethau ac yn siarad â pherchnogion tir ar hyd y llwybr arfaethedig i'n helpu i ganfod ffyrdd o leihau effeithiau ein cynlluniau.

Bydd ein cysylltiad yn helpu i drawsyrru trydan o Wylfa Newydd i'r miliynau o gartrefi a busnesau lle mae ei angen, ac i ddat-gloi biliynau o bunnau mewn buddsoddiad a swyddi ar gyfer yr ardal.  Rydym yn ffyddiog y bydd yn barod ar gyfer Horizon pan ddaw'r amser.

Rydym yn cysylltu â'n rhanddeiliaid ac yn ysgrifennu at bawb sydd wedi gofyn am newyddion trwy'r ebost.  Byddwn yn dal i ddiweddaru ein gwefan wrth i'n gwaith symud ymlaen dros y misoedd nesaf.  Os oes gennych ddiddordeb, mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio a swyddogaeth yr Arolygiaeth Gynllunio ar ein gwefan ni ac yn: infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/

Yn y cyfamser, os bydd gennych ryw gwestiwn, mae croeso i chi gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Yn gywir,

Gareth Williams

Gareth Williams
Uwch Reolwr y Prosiect

**Sicrhau ein cyflenwad ynni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

National Grid Electricity plc
Registered Office: 1-3 Strand, London WC2N 5EH
Registered in England and Wales, No 2366977

**Community Relations Team**
FREEPOST National Grid
NW Connection

Freephone: 0800 990 3567
E: nationalgrid@northwalesconnection.com
www.northwalesconnection.com

nationalgrid

26 October 2017

Dear

**North Wales Connection Project: timing of our application**

As a town/community council with an interest in the project, I wanted to update you on our proposals for connecting Wylfa Newydd.

As you may know, we always planned to submit our application for consent to connect the new nuclear power station after Horizon Nuclear Power have submitted theirs.

Horizon have now said that they won't be submitting their application to the Planning Inspectorate until next year, so we have decided that our application will move back too.

This doesn't mean that our project is being put on hold. We're continuing to work closely with Horizon to develop our project and to coordinate our applications. We're carrying out more studies and talking with landowners along the proposed route to help us to find ways to further reduce the effects of our proposals.

Our connection will help to transmit power from Wylfa Newydd to the millions of homes and businesses that need it, and unlock the jobs and billions of pounds of investment for the area. We're confident that it will be ready for when Horizon wants it.

We're updating stakeholders and writing to everyone who has subscribed to receive email updates. We'll continue to update our website as our work progresses in the coming months. If you are interested, there is more information on the application process and the role of the Planning Inspectorate on our website and via: infrastructure.planninginspectorate.gov.uk.

In the meantime, if you have any queries please get in touch using the details above.

Yours sincerely,

Gareth Williams

Gareth Williams
Senior Project Manager

**Securing our energy supply for future generations.**

National Grid Electricity plc
Registered Office: 1-3 Strand, London WC2N 5EH
Registered in England and Wales, No 2366977

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**

**21 Tachwedd 2017**

**Town and Community Councils Liaison Forum**
**21 November 2017**

**Eitem 9 – Rhannu gwybodaeth**

**Item 9 – Sharing information**

**9.1 Cynllun y Cyngor 2017 - 2022**

Mae Cynllun y Cyngor wedi ei gyhoeddi ac ar gael ar y ddolen isod:

**9.1 Council Plan 2017 – 2022**

The Council Plan has been published and is available on the link below:

Cymraeg: http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllun-y-cyngor-a-pherfformiad/

English: http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/governance-and-performance-/council-plan-and-performance?redirect=false

**9.2 Rhaglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini**

Mae rhaglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgorau Sgriwtini’n cael eu diweddaru’n rheolaidd ar y ddolen isod:

**9.2 Executive and Scrutiny work programmes**

The Executive and Scrutiny work programmes are updated regularly and are available on the link below:

**Pwyllgor Gwaith / The Executive**:
Cymraeg - http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/blaen-raglen-waith-y-pwyllgor-gwaith?redirect=false

English - http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/the-executives-forward-work-programme/

**Sgriwtini / Scrutiny:**
Cymraeg - http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/sgriwtini?redirect=false

English - http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/governance-and-performance-/scrutiny?redirect=false

**9.3 Dogfennau Partneriaethol**

Mae’r Cyngor wedi cyhoeddi Dogfen Bolisi a Theclyn Partneriaethol, sydd yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau.

**9.3 Partnership documents**

The Council has published a Policy Document and a Partnership Toolkit, which provides guidelines for establishing and developing partnerships.

Mae'r Ddogfen Bolisi, y Teclyn Partneriaethol a'r Atodiadau i'r Teclyn, ar gael i'w darllen neu lawrlwytho o'r ddolen isod:

The Policy Document, the Partnerships Toolkit and the Appendices to the Toolkit are available to read or download from the link below:

Cymraeg: http://www.ynysmon.gov.uk/cymuned/partneriaethau/

English: http://www.anglesey.gov.uk/community/partnerships?redirect=false